**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23 Medi 2013 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Penlington | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd yr Awdurdod); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead a K V Williams (Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); V DeZouche (KPMG); L Williams (Swyddfa Archwilio Cymru); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Y Cyngh A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Mike Halstead | Pennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION

2.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2013 i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Ar y pwynt hwn, atgoffwyd yr aelodau ynglŷn â'r anghydfod diwydiannol a oedd i ddigwydd ar 25 Medi, 12pm - 4pm, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Tân yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Roedd cynlluniau dilyniant gwaith y Gwasanaeth ar waith ac mae hefyd yn gofyn i'r cyhoedd gymryd gofal ychwanegol yn ystod cyfnod y streic.

Awgrymodd y Cadeirydd bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar effaith y streic ar gyllid yr Awdurdod. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd yr wybodaeth yn cael ei darparu fel rhan o'r adroddiad alldro dros dro i gyfarfod yr Awdurdod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD cydnabod y diweddariad.**

4 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

4.1 Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y newidiadau a wnaed ers i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth reoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2013. Roedd y dangosyddion darbodus ar gyfer 2013-14 wedi newid ac roedd yna hefyd fenthyciadau newydd a newidiadau i'r rhestr o bartïon i gontract. Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad manwl yn y cyfarfod.

4.2 Roedd gwariant cyfalaf wedi cynyddu dros yr amcangyfrif gwreiddiol oherwydd cynlluniau nad oeddynt wedi eu cwblhau'n llwyr yn 2012-2013 yn treiglo drosodd i 2013-2014. Rhoddwyd dadansoddiad manwl i'r Aelodau o'r gyllideb a gymeradwywyd ac arian wedi ei gario trosodd. Atgoffodd y DBST yr Aelodau bod y gwariant cyfalaf gofynnol yn aros yn uchel oherwydd bod rhai gorsafoedd i gael eu hailadeiladu a'u hailfodelu. Fodd bynnag, unwaith y byddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau, bydd yr Awdurdod yn symud i gyfnod cynnal a chadw ac felly byddai gostyngiad yn y gwariant cyfalaf.

4.3 Nododd yr Aelodau nad oedd benthyciadau Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi eu cymryd eto i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn y flwyddyn ariannol hon. Mae cyfraddau llog gan awdurdodau lleol yn is na'r rhai a gynigir gan y Bwrdd ac felly mae gan yr Awdurdod fenthyciadau o £7m ar hyn o bryd mewn benthyciadau tymor byr a gymerwyd gydag awdurdodau lleol eraill. Rhoddwyd manylion benthyciadau a'r cyfraddau llog presennol i'r Aelodau.

4.4 O ran y cyfraddau llog a ragamcanwyd, hysbysodd Ms Forrest yr Aelodau bod cynghorwyr Rheoli'r Trysorlys wedi dweud bod risg isel wrth gynyddu'r cyfyngiad uchaf a gymeradwywyd ar gyfer benthyciadau yn aeddfedu o fewn 12 mis o 45% i 50% i fanteisio ar y cyfraddau is ar gyfer benthyca tymor byr. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cymeradwyo'r cynnydd yn y cyfyngiad uchaf ar strwythur aeddfedu benthyca ar gyfer benthyciadau sy'n aeddfedu mewn llai na 12 mis i 50%.

4.5 **PENDERFYNWYD**

- **(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a ddiwygiwyd;**
- **(ii) cydnabod y partïon i'r contractau;**
- **(iii) cydnabod y benthyciadau newydd; a**
- **(iv) cymeradwyo'r cynnydd yn y strwythur aeddfedu i 50% ar gyfer benthyca tymor byr dan 12 mis.**

5 DATGANIAD CYFRIFON

5.1 Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r datganiad cyfrifon a archwiliwyd ar gyfer 2012-13 a'r datganiad llywodraethu blynyddol. I gydymffurfio gyda'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, rhaid cymeradwyo'r datganiadau erbyn 30 Medi. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd gydnabod y llythyr sylwadau i'w anfon gan yr Awdurdod at SAC a KPMG. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio.

5.2 Nodwyd bod ymarfer cydweithredol wedi ei wneud gyda'r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru i safoni fformat Datganiadau Cyfrifon y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r fformat a ddefnyddir yn cael ei ddyblygu yng nghyfrifon Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

5.3 Arweiniodd Ms Forrest yr Aelodau trwy'r datganiad cyfrifon a thanlinellu bod newidiadau wedi eu gwneud yn unol â chanfyddiadau archwilio fel a ganlyn:

- Ailddosbarthu rhai eitemau gwariant o refeniw i gyfalaf;
- Newidiadau i gyfanswm yr asedau sefydlog yn adfer rhai cerbydau a oedd wedi eu dileu yn anghywir a newid y dibrisiant a gyfrifiwyd ar gyfer y flwyddyn;
- Ailddosbarthu Darpariaeth i Gredydwr;
- Newid i rai o'r ffigurau a'r tablau yn y nodiadau i'r cyfrifon i wella'r cyflwyniad.

5.4 Roedd y Cynghorydd Shotton yn falch bod yr Awdurdod wedi neilltuo £466,000 i'r gronfa gyffredinol a holodd a fyddai cyfle i ychwanegu mwy at y gronfa hon. Cadarnhaodd y Trysorydd os bydd tanwariant, hysbysir yr Aelodau trwy gyfrwng yr adroddiadau alldro dros dro a chynllunio ariannol a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

5.5 Mewn perthynas â materion pensiwn, esboniodd Ms Forrest atebolrwydd pensiwn yr Awdurdod a'r ddau fath o gynllun pensiwn 'roedd ganddo. Nodwyd bod y cynllun Llywodraeth Leol wedi ei ariannu'n llawn ac y bydd cyfraniadau yn cwrdd â 100% atebolrwydd. Nid yw cynllun y diffoddwyr tân wedi ei ariannu ac yn cael ei weithredu y tu allan i'r cyfrif refeniw fel Cronfa Bensiwn ar wahân. Gofynnodd y Cadeirydd am gael cyflwyno adroddiad ar bensiynau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

5.6 Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) wedi ei gymeradwyo gan yr aelodau ym mis Gorffennaf 2013 ac fe'i cynhwyswyd fel atodiad i'r datganiad cyfrifon. Mae'r datganiad yn esbonio bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r cod llywodraethu corfforaethol; yn dadansoddi'r risgiau a wynebir gan yr Awdurdod; ac yn manylu cynlluniau yn y dyfodol i ddelio â'r risgiau hyn. Mae'n ofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) bod y DLlB yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gyda'r cyfrifon.

5.7 Cyflwynwyd y llythyr sylwadau i Swyddfa Archwilio Cymru ac i KPMG gan yr Awdurdod er cymeradwyaeth. Mae'r llythyr yn ofyniad dan Safonau Archwilio, gan fod KPMG angen cael sylwadau gan yr Awdurdod i gefnogi ei farn archwilio.

5.8 Ers pan baratowyd a dosbarthwyd y datganiad cyfrifon i'r aelodau, bu datblygiadau mewn perthynas â gwaith cyfalaf sydd wedi ei ddosbarthu fel costau refeniw yn y datganiad.

5.9 Ar ôl cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Medi, roedd y gwaith ar gyd-brosiect Wrecsam wedi ei adfer, ac felly gellid nawr ailddosbarthu'r ffioedd o £0.88m a ddebydwyd i refeniw fel gwariant cyfalaf. Fodd bynnag, gan fod y penderfyniad wedi ei gymryd ar ôl awdurdodi'r cyfrifon i'w cyflwyno, ni fydd y newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon ar gyfer 2012-13. Paratowyd y cyfrifon a'r amcanestyniadau cyfrifon ar wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd; bydd yr wybodaeth newydd hon yn golygu newid amcanestyniad cyfrifo ac felly caiff ei gydnabod yn y cyfnod ariannol cyfredol.

5.10 Ar ôl derbyn esboniad ar wahanol faterion, bu i'r Aelodau **BENDERFYNU**

**(i) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon a archwiliwyd ar gyfer 2012-13 a chydnabod y Llythyr Sylwadau a anfonwyd at yr Archwilwyr Allanol;**

**(ii) gofyn am gael cyflwyno adroddiad ar bensiynau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.**

6 ARCHWILIO DATGANIADAU ARIANNOL

6.1 Cyflwynodd Victoria DeZouche yr archwiliad o ddatganiadau ariannol a oedd yn crynhoi canfyddiadau Archwilio cyfrifon 2012-13. Cadarnhaodd Ms DeZouche y byddai'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno fel rhai diamod, gan nad oedd newidiadau mawrion i'w gwneud ac nad oedd unrhyw wendidau perthnasol wedi eu hadnabod.

6.2 Diolchodd Ms DeZouche i Sandra Forrest a'r staff am gynorthwyo gyda'r broses archwilio. Diolchodd y Cynghorydd MacRae hefyd i Sandra Forrest ar ran y Pwyllgor Archwilio am ei holl waith a'r cyflwyniadau a dderbyniwyd yn y cyfarfod.

6.3 **PENDERFYNWYD cydnabod yr archwiliad o ddatganiadau ariannol.**